

Cytundeb rhwng Heddlu De Cymru a Gwarchod Cymdogaeth De Cymru

Y Cefndir

Er mwyn gwneud y gorau o ddylanwad Grwpiau Gwarchod Cymdogaeth ledled cymunedau De Cymru, mae angen gweledigaeth, pwrpas a disgwyliadau eglur ar ran pawb sy'n gysylltiedig.

Mae'r cytundeb drafft hwn yn cael ei lunio yn y lle cyntaf rhwng Heddlu De Cymru – gyda'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cytuno iddo – a Chymdeithas Gwarchod Cymdogaeth De Cymru. Y bwriad yw darparu templed ar gyfer cytundebau ar lefel pob awdurdod lleol, gan ymwneud â'r Gymdeithas Gwarchod Cymdogaeth Sirol, yr Awdurdod Lleol, y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Lleol a'r Tîm Heddlu Lleol, gyda chefnogaeth y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd.

Bwriedir cytundeb lleol o'r fath i sicrhau bod Grwpiau Gwarchod Cymdogaeth lleol yn gallu gweithio'n effeithiol, i "berchen ar a mynd i'r afael â materion lleol" ac i rymuso pobl lleol. Gellir cyflawni hyn orau os bydd Grwpiau Gwarchod Cymdogaeth yn gallu gweithio o fewn fframwaith cytunedig gyda'r tîm plismona cymdogaeth a phartneriaid lleol, a bydd eu llais yn cael ei glywed ar lefel partneriaeth y Sir a Rheolaeth yr Heddlu.

Ein gweledigaeth ar y cyd

Nod datganedig y mudiad Gwarchod Cymdogaeth yn y DU yw dod â chymdogion at ei gilydd i greu cymunedau cryf, cyfeillgar, gweithgar lle mae troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn llai tebygol o ddigwydd.

Mae datganiad gweledigaeth Gwarchod Cymdogaeth yn eglur:

"Mae gennym weledigaeth o gymdeithas ofalgar sy'n canolbwyntio ar ymddiriedaeth a pharch lle mae pobl yn ddiogel rhag troseddu ac yn mwynhau ansawdd bywyd da. Mae Gwarchod Cymdogaeth yn ymwneud â sicrhau nad oes angen i unrhyw un deimlo'n ofnus, yn agored i niwed neu'n ynysig yn y man lle maent yn byw. Mae'n ymwneud â phobl yn gofalu am ei gilydd, gan oresgyn rhwystrau oedran, hil a dosbarth i greu cymunedau gwirioneddol sydd o fudd i bawb."

Mae'r weledigaeth honno'n gwbl gyson â'r weledigaeth sydd wedi'i gosod allan gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a gan y Prif Gwnstabl.

- Mae Cynllun yr Heddlu a Throseddu yn ymwneud â chreu cymunedau cryf, iach fel ochr arall y geiniog o fynd i'r afael â throseddu ac anhrefn sy'n

effeithio ar ein cymunedau yn Ne Cymru. Mae'n ymwneud â defnyddio dull partneriaeth i leihau troseddu ac adeiladu ar gryfderau lleol.

- Gweledigaeth y Prif Gwnstabl yw swyddogion yr heddlu sydd â balchder, sy'n gadarnhaol ac yn broffesiynol yn eu hymwneud â'u cymunedau lleol.

Mae ymgysylltiad lleol cynyddol â'r cyhoedd yn bodoli drwy dimau plismona cymdogaeth – yn enwedig gan Swyddogion Cymorth Cymunedol – felly mae'n bwysig cael dealltwriaeth gyffredin rhwng Grwpiau Gwarchod Cymdogaeth, y Tîm Plismona Cymdogaeth ac eraill sy'n cynrychioli buddiannau lleol, yn enwedig y Cynghorwyr lleol a grwpiau gwirfoddol cymunedol.

Gyda hynny mewn golwg, mae Gwarchod Cymdogaeth De Cymru a Heddlu De Cymru wedi ymrwymo i ymagwedd ar y cyd, wedi'i seilio'n gadarn ar saith egwyddor allweddol:

Bod yn

- seiliedig ar dystiolaeth ynghylch anghenion a materion lleol
- seiliedig ar dystiolaeth o ran deall yr hyn sy'n gweithio
- canolbwyntio'n glir ar leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynyddu hyder y cyhoedd
- wrthrychol wrth fynd ati i hysbysu'r cyhoedd yn lleol
- ymatebol o ran ceisio barn y cyhoedd
- uchelgeisiol i alluogi trigolion i fod yn berchen ar faterion lleol a datblygu atebion i heriau lleol
- gydweithredol wrth weithio gyda'n gilydd er lles pawb.

Mae gan bob cymuned ledled De Cymru ei hanghenion a'i materion ei hun, ac ein nod ni yw grymuso'r cymunedau lleol hynny, nid i osod model "un ateb sy'n addas i bawb". Mae'n bosibl y bydd y grymuso hwnnw'n galw am ddatblygu sgiliau, er enghraifft trwy hyfforddiant a gynigir gan Ddinasyddion De Cymru a'u grwpiau lleol. Os yw pob cymuned yn gallu adnabod a mynd i'r afael â materion lleol yn effeithiol, bydd hynny'n arwain at lwyddiant ar lefel awdurdod lleol ac ar lefel De Cymru – ond mae'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn lleol o ran eu natur a dyna le mae'n rhaid rhoi'r pwyslais.

Mae'n bosibl bod anghenion mwy arbenigol y gellir mynd i'r afael â nhw yn ychwanegol at y model cymdogaeth. Mae datblygiadau mewn rhai rhannau o'r DU wedi cynnwys Gwarchod Ffermydd, Gwarchod Tafarndai a Gwarchod Busnes. Gan ddefnyddio'r un meini prawf a nodir uchod, byddwn yn cefnogi datblygiadau o'r fath yn Ne Cymru, fel arfer yn

seiliedig ar ôl troed yr awdurdod lleol. Hefyd rydym yn cael ein hannog gan ddiddordeb grwpiau ffydd i ymgysylltu â'r cysylltiadau rhwng eu hanghenion eu hunain a diogelwch y gymuned ehangach o'u cwrpas, a byddwn yn gweithio gyda'n gilydd ar ddatblygu cynllun "Gwarchod Addoli" a fydd yn cynnwys cymunedau ffydd yn gweithio gyda'i gilydd er lles pawb.

Byddwn yn annog aelodau a chynrychiolwyr grwpiau lleiafrifoedd ethnig i gymryd rhan mewn Gwarchod Cymdogaeth. Byddwn yn ystyried lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn annog datblygiad grwpiau Gwarchod Cymdogaeth yn yr ardaloedd a'r cymunedau sydd â'r angen mwyaf.

Mae llawer o sefydliadau eisiau gweithio gyda Gwarchod Cymdogaeth a'r Timau Plismona Cymdogaeth. Cafwyd ymholiadau gan Age Concern, y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid, adrannau Safonau Masnach ac eraill. Rydym yn gweld y Gymdeithas Sirol fel y ffordd orau o gyfathrebu â'r sefydliadau hynny, gan alluogi cydlynu negeseuon gyda phartneriaethau diogelwch cymunedol ac eraill a datblygu cydddealltwriaeth a phwrpas cyffredin.

Mae'r gweithgareddau a gynhelir gan grwpiau Gwarchod Cymdogaeth lleol yn nodedig ers tro am eu hamrywiaeth, ac maent yn cynnwys popeth o welliannau diogelwch yn y cartref i weithdai ieuenctid ac i gynlluniau ymweld ar gyfer yr henoed a phrosiectau glanhau cymdogaeth.

Yn aml mae'r canlyniadau wedi bod yn drawiadol. Yn ogystal â chanlyniadau penodol, mae llawer o grwpiau Gwarchod Cymdogaeth wedi gwneud cyfraniad sylweddol tuag at wneud eu cymuned leol yn fwy cyfeillgar a chydlynol yn ogystal â chyflawni gostyngiad mewn troseddu. Mae'n berffaith wir i ddweud bod y da'n gallu gyrru allan y drwg.

Bydd Gwarchod Cymdogaeth yn Ne Cymru yn parhau i gymryd rhan yn y Rhwydwaith Gwarchod Cymdogaeth a Chartrefi, sef yr elusen a'r corff ambarél sy'n cynrychioli aelodau Gwarchod Cymdogaeth a Gwarchod Chartrefi ledled Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae Heddlu De Cymru a Chymdeithas Gwarchod Cymdogaeth De Cymru yn cwrpasu dros 40% o boblogaeth Cymru ac rydym yn ymwybodol bod llawer o'n partneriaid yn dod o dan nawdd Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Dyna pam y mae angen ein model ein hunain o ymgysylltu, sy'n seiliedig ar yr enghreifftiau gorau o arfer gorau cenedlaethol a rhyngwladol, ond sy'n ein galluogi i wneud y gorau o'n sgiliau, ein

Cytunwyd 8 Ebrill 2014

systemau a'n hadnoddau ein hunain i gyflwyno ein gweledigaeth ar y cyd i a gyda chymunedau lleol ledled De Cymru.

I'w lofnodi gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a chynrychiolwyr Gwarchod Cymdogaeth De Cymru. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei ddilyn gan gytundebau yn ymwneud â phob awdurdod lleol a'r Cyngorau Gweithredu Gwirfoddol perthnasol.